**PWYLLGOR TRWYDDEDU CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**

Cofnodion cyfarfod rhithwir y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ddydd Mawrth 7 Rhagfyr 2021 am 5.00pm.

**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol - Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu oedd yn bresennol:-**

Y Cynghorydd A Fox (Cadeirydd)

Y Cynghorydd D. Williams
Y Cynghorydd S. Powderhill
Y Cynghorydd S. Morgans
Y Cynghorydd L. Jones
Y Cynghorydd G. Holmes
Y Cynghorydd S. Bradwick
Y Cynghorydd T. Williams
Y Cynghorydd P. Howe
Y Cynghorydd L. Hooper

**Swyddogion yn bresennol:-**

Ms L Davies, Cyfarwyddwr Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau Cymuned
Mr P Nicholls, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyfreithiol
Ms R. Hope, Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio
Mr M Owen, Rheolwr Trwyddedu Cynorthwyol
Mr N Evans, Swyddog Gorfodi Materion Trwyddedu
Ms K Trilloe, Rheolwr Dros Dro – Diogelu Iechyd a Thrwyddedu

**64 Datgan Buddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud ynglŷn â'r agenda:

- Datganodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Bradwick fuddiant yn Eitem 4 o'r agenda: 'Rydw i'n adnabod un o'r ymgeiswyr'.

**65 Deddf Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn**

**PENDERFYNWYD** nodi pan fydd Aelodau'n ystyried y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

**66 Cofnodion**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Tachwedd 2021 yn rhai cywir.

**67 Trafod Trwyddedau a Chofrestriadau a gyhoeddwyd o dan ddarpariaeth pwerau dirprwyedig ar gyfer y cyfnod: 18.10.21 - 21.11.21**

Rhoddodd Cyfarwyddwr Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned fanylion i'r Aelodau am drwyddedau a chofrestriadau a gafodd eu cyhoeddi yn ystod y cyfnod 18 Hydref 2021 tan 21 Tachwedd 2021.

**PENDERFYNWYD** nodi'r diweddariad.

**68 Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad:**

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

**69 Crynodeb o'r trwyddedau a gyhoeddwyd o dan ddarpariaeth Awdurdod Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 18.10.21-21.11.21**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned yr adroddiad i'r Aelodau'n amlinellu'r Trwyddedau a/neu Gofrestriadau a gafodd eu cyhoeddi o dan ddarpariaeth Awdurdod Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 18 Hydref 2021 tan 21 Tachwedd 2021.

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor nodi'r diweddariad.

**70 Crynodeb Gorfodi (gan gynnwys Data Apeliadau/Erlyniadau) ar gyfer y cyfnod 20.10.21 - 24.11.21**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned yr adroddiad i Aelodau'n amlinellu'r gwaith gorfodi diweddaraf, gan gynnwys y diweddaraf am apeliadau ac erlyniadau ar gyfer y cyfnod 20 Hydref 2021 tan 24 Tachwedd 2021.

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor nodi'r diweddariad.

**71 Materion Brys**

Rhoddodd Cyfarwyddwr Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned y newyddion diweddaraf ar lafar i Aelodau mewn perthynas â sbeicio diodydd sy'n bryder wedi'i nodi gan y sector a chwsmeriaid.

Cafodd yr Aelodau wybod bod adroddiad wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Materion Troseddau ac Anhrefn yn ddiweddar mewn perthynas â rhoi mesurau pellach ar waith yn Rhondda Cynon Taf i gadw menywod a merched yn ddiogel mewn mannau cyhoeddus ac y byddai adroddiad arall o ran sbeicio diodydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf.

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.33pm**

**Y CYNGHORYDD A FOX**
**CADEIRYDD.**